***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 991 (Cy. 160)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Medi 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *14 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Hydref 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 81(5)(a) a (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Hydref 2023.

### Diwygio rheoliad 1(3) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

**2.** Yn rheoliad 1(3) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001(**2**), yn y diffiniad o "awdurdod perthnasol", ar ôl "cyngor cymuned," mewnosoder "cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021,".

(**1**) 2000 p. 22. Diwygiwyd adran 81(5) gan baragraff 48(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), i roi'r geiriau "Welsh Ministers" yn lle "Secretary of State". Ailrifwyd adran 81(5) yn adran 81(5)(a) a mewnosodwyd adran 81(5)(b) gan adran 69(3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4). Mewnosododd rheoliad 3(2)(a) o O.S. 2022/372 (Cy. 92) gyd-bwyllgorau corfforedig yn y diffiniad o "relevant authority" yn adran 49 o Ddeddf 2000. Mae adran 49 wedi ei chynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf 2000, sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol.

(**2**) O.S. 2001/2279 (Cy. 169) a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/2929 (Cy. 214) ac O.S. 2016/85 (Cy. 39).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

12 Medi 2023

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 1(3) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2279 (Cy. 169)) ("Rheoliadau 2001") er mwyn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) at y diffiniad o "awdurdod perthnasol".

Mae Rheoliadau 2001 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer caniatáu gollyngiadau rhag gwaharddiadau yn y cod ymddygiad ar gyfer aelodau neu aelodau cyfetholedig o bwyllgorau safonau awdurdodau perthnasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a oedd yn sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar adeg gwneud y rheoliadau sefydlu hynny a dibynnir arno at ddiben y Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.